

Patrwm cyflwyno O fis Mehefin i fis Ionawr

Disgrifiad o'r modiwl

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o ddamcaniaethau cyfieithu ac ymarfer cyfieithu. Byddant yn dechrau drwy ddysgu am ddulliau ymchwilio mewn Astudiaethau Cyfieithu ac yna, gyda chymorth eu tiwtor, byddant yn llunio cynnig ar gyfer darn estynedig o waith annibynnol a all fod yn gyfieithiad estynedig gydag anodiadau atoddedig, neu'n draethawd hir academiaidd. Bydd myfyrwyr yn ymgysylltu â materion moeseg, ac yn dysgu sut i ffurfio eu cwestiynau ymchwil, chwilio am adnoddau mewn Astudiaethau Cyfieithu, cynnal adolygiad o lenyddiaeth, a dadansoddi/dehongli data. Fel Darlithydd Cyswllt ar y modiwl hwn, byddwch yn helpu myfyrwyr i ymgysylltu â thasgau sy'n ymwneud ag ymchwil, er enghraifft, rhoi cyngor iddynt ar fodolau damcaniaethol priodol a chynllunio arbrofion ymchwil ar raddfa fach.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- PhD mewn cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd neu faes cysylltiedig (e.e. llenyddiaeth gymharol). Mae PhD mewn pwnc arall hefyd yn dderbyniol, os oes gennych profiad sylweddol o addysgu cyfieithu ar lefel ôl-raddedig;
- cymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Saesneg ysgrifenedig a llafar.
- gwybodaeth am un o'r ieithoedd canlynol, ar wahân i Saesneg, ar Lefel C1 (Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd) neu uwch: Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, neu Sbaeneg.
- gwybodaeth am theori cyfieithu a/neu ddulliau ymchwil cyfieithu a'r gallu amlwg i addysgu'r rhain;
- profiad cyfredol neu ddiweddar o addysgu cyfieithu ar lefel ôl-raddedig mewn sefydliad addysg uwch/ ar lefel drydyddol;
- profiad cyfredol neu ddiweddar o oruchwylio a marcio prosiectau neu draethodau hir cyfieithu ar lefel ôl-raddedig mewn sefydliad addysg uwch/ ar lefel drydyddol;
- rhywfaint o brofiad proffesiynol diweddar o weithio yn y sector cyfieithu;
- gwybodaeth am o leiaf un o'r meysydd canlynol a pharodrwydd i ddatblygu gwybodaeth yn y meysydd sy'n weddill: technoleg cyfieithu, cyfieithu clywedol, cyfieithu arbenigol (technegol, meddygol neu gyfreithiol), lleoleiddio gemau, apiau neu'r we, cyfieithu ym maes busnes, cyfieithu llenyddol, cyfieithu gwybyddol, cymdeithaseg cyfieithu, a/neu gyfieithu ar gyfer marchnata a hysbysebu;
- gallu amlwg i diwtora myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol, na fydd Saesneg yn iaith gyntaf i gyfran ohonynt;

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o'r sector Addysg Uwch yn y DU;
- tystiolaeth o gyhoeddiadau mewn Astudiaethau Cyfieithu;
- profiad o addysgu ar-lein ac o bell.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r modiwl hwn ar gael i'w astudio ledled y byd a chaiff ei diwtora ar-lein yn gyfan gwbl. Un o'ch prif rolau fydd cymedroli fforymau trafod ar-lein, a byddwch yn goruchwylio myfyrwyr hyd at gwblhau eu traethawd hir/cyfieithiad estynedig.

Gall myfyrwyr astudio'r modiwl hwn yn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg, Tsieinëeg neu Arabeg, ar y cyd â Saesneg. Saesneg yw iaith yr addysgu. Byddwch yn ymwybodol bod y

cais hwn ar gyfer Tsieinëeg, Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg yn unig. Caiff grwpiau tiwtorial eu trefnu fesul cyfuniad iaith, h.y. Saesneg a Ffrangeg, Saesneg ac Almaeneg, ac ati, er mwyn i chi oruchwylio gwaith yn eich cyfuniad o ieithoedd *. Bydd myfyrwyr yn gweithio gyda'u hiaith arall, neu'n cyfieithu iddi ac yn ôl, a Saesneg, ac mae'n hanfodol eich bod yn gallu rhoi adborth ar y ddwy iaith.

*Nodwch ym mlwch "arbenigedd" adran A y ffurflen gais pa iaith y mae gennych hyfredded ynddi. Gallwch gynnwys mwy nag un os yw'n briodol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr, gan gynnwys yr asesiad diwedd y modiwl:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	4.5